



Canolfan Grefft Rhuthun – Polisi Ymwelwyr

Awst 11eg 2021

Mae ein drysau ar agor ac rydyn ni'n edrych ymlaen at eich croesawu i'r Ganolfan.

Rydyn ni wedi diweddarau ein polisiâu a'n Hasesiadau Risg yn unol â chanllawiau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru: gyda help gan ein cydweithwyr yn Hamdden Sir Ddinbych Cyf. a thrwy rannu arferion gorau o fewn y sector. Mae ein tîm yn dal i sicrhau fod Canolfan Grefft Rhuthun yn aros yn 'Covid-19 ddiogel'.

Ein blaenoriaeth lwyr yw eich cadw chi a'n staff yn ddiogel.

Mae'n bwysig deall fod y rheolau yng Nghymru fymryn yn wahanol.

Er bod yr ymrwymadau cyfreithiol yn disgyn ar bersonau penodedig, mae gan bawb yn y gweithle neu ar safle sy'n agored i'r cyhoedd gyfrifoldeb personol o ran eu hymddygiad hwy eu hunain a hefyd i beidio â rhwystro camau a gymerir i sicrhau fod y perygl o drosglwyddiad coronafirws ledled Cymru'n cael ei leihau.

Fe sylwch ar newidiadau pan fyddwch yn ymweld â ni (bydd y rhain yn cael eu diweddarau drwy'r amser pan roddir canllawiau a rheoliadau newydd).

Pryd fyddwch chi ar agor?

- Rydyn ni wedi newid ein Horiau Agor, fe fyddwn yn awr ar agor rhwng **10.00am – 5.30pm** Dydd Mawrth i Ddydd Sul (**Ar Gau ar Ddyddiau Llun**) bob wythnos hyd nes y ceir hysbysiad pellach.

Sut ddylwn i ymweld?

- Mae croeso i chi ymweld â'r safle ar unrhyw adeg yn ystod ein horiau agor cyhoeddus fel y'u rhestrir uchod.

Sut allwn ni sicrhau fod Canolfan Grefft Rhuthun yn ddiogel i ymwelwyr?

- **Mae'n dal i fod yn rhwymedigaeth gyfreithiol yng Nghymru i wisgo gorchudd wyneb ym mhob lle cyhoeddus dan do.** Felly mae'n ofynnol i chi wisgo gorchudd wyneb pan fyddwch yn ymweld â ni (oni bai eich bod wedi eich eithrio)), er mwyn eich diogelwch chi a diogelwch ein staff. I gael mwy o wybodaeth, ewch i wefan Llywodraeth Cymru www.llyw.cymru/coronafeirws
- Bydd staff y Ganolfan Grefft yn parhau i wisgo gorchudd wyneb (yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru)
- Rydyn ni'n gofyn i chi barhau i **olchi eich dwylo** wrth ddod i mewn gyda'r gel saniteiddio a ddarperir.
- **Cadw Pellter Cymdeithasol** – Helpwch ni i barhau i gadw pawb yn ddiogel drwy gynnal pellter corfforol clir, pryd bynnag y bydd hynny'n bosib, oddi wrth gwsmeriaid a staff pan fyddwch chi yng Nghanolfan Grefft Rhuthun.
- Bydd gardiau plastig yn dal ar gael yn y dderbynfa/y ddesg werthu

Fydd eich toiledau ar agor?

- Mae ein toiledau cyhoeddus i gyd yn awr wedi'u hail-agor.

A gaf i ddefnyddio arian parod?

- Gallwn dderbyn taliadau arian parod ond fe anogir ymwelwyr yn gryf i barhau i dalu â dulliau di-gyffyrddiad pryd bynnag y bo hynny'n bosib.

Gweithdai a Gweithgareddau Ymgysylltu

- Gan fod rheoliadau a Chanllawiau'r Llywodraeth wedi newid rydyn ni'n awr wedi ail-ddechrau ar ein Gweithdy ar-lein a'n gweithgareddau Ymgysylltu. Gweler adrannau perthnasol ein gwefan a chyfryngau cymdeithasol i gael diweddariadau a manylion y rhaglen.
- Fodd bynnag, bydd rhai ardaloedd fel ein gofod Gweithgareddau Ymarferol yn dal i fod ar gau am y tro.

Fydd y Bwyty ar agor?

- **Bydd y Caffi R yn dal i fod ar gau**, a bydd yn ail-agor yn nes ymlaen.

- Mae yna nifer o opsiynau bwyd a diod ar gael yn yr ardal leol – felly beth am ddilyn yr **Helfa Gelf** www.ruthinartrail.co.uk i mewn i'r dref ac archwilio'r dref farchnad hanesyddol hon yn rhan o'ch ymweliad.

Beth petawn i'n teimlo'n sâl?

- Os byddwch chi neu rywun rydych chi wedi bod mewn cysylltiad â nhw'n ddiweddar yn dangos symptomau Covid-19, gohiriwch eich ymweliad â'r ganolfan, os gwelwch yn dda.

Beth petai lefelau Rhybudd yn newid eto?

- Os bydd Lefelau Rhybudd Covid a chanllawiau a chyfyngiadau'r Llywodraeth yn newid mae'n bosib y bydd yn rhaid i ni newid rheolau'r Polisi Ymwelwyr a/neu gau ar fyr rybudd.

Ar hyn o bryd nid oes yna unrhyw gyfyngiadau mewn grym o ran teithio i neu allan o Gymru cyn belled â'ch bod yn teithio i neu o wlad sydd o fewn Ardal Deithio Gyffredin y DU neu Ardal Deithio Gyffredin ehangach (Iwerddon, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel).

Os ydych chi'n bwriadu teithio o ardal lle mae yna Gyfyngiadau Covid-19 gwahanol, peidiwch ag ymweld â ni, os gwelwch yn dda, gallwch ail-drefnu eich ymweliad ar gyfer dyddiad diweddarach.

Canolfan Grefft Rhuthun, Y Ganolfan i'r Celfyddydau Cymhwysol, Heol y Parc, Rhuthun, Sir Ddinbych, Cymru DU, LL15 1BB.
Ffôn: +44 (0)1824 704774. Mynediad AM DDIM. Maes Parcio AM DDIM. www.canolfangrefftrhuthun.org.uk

